# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 14EG MEDI, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 8 Medi 2015)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Christopher Hughes
Ann Williams
Dwy sedd wag

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Angela Russell
Eryl Jones-Williams
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Llywarch Bowen Jones
Peter Read
I. Dilwyn Lloyd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Louise Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 2

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 3 - 5

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:-

a) 16.7.15

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.06.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, , Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. ETHOLCADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

**3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eddie Dogan, Llywarch Bowen Jones ac Ann Williams.

Croesawyd Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i'r Pwyllgor. Nodwyd bod Gareth Jones wedi derbyn cyfrifoldeb dros dro dros yr adran Gwarchod y Cyhoedd yn sgil ymddeoliad Mr John Reynolds, Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd . Anfonwyd neges a ran y pwyllgor i ddiolch i Mr John Reynolds am ei wasanaeth a'i gefnogaeth dros y blynyddoedd i'r Pwyllgorau Trwyddedu.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed o Fawrth 2015 fel rhai cywir.

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 09.02.2015 a 12.05. 2015.

**8. DIWYGIO DEDDF TRWYDDEDU 2003: DEDDF DADREOLI 2015**

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi ymwybyddiaeth yr Aelodau i newidiadau o fewn Deddf Trwyddedu 2003: Deddf Dadreoli 2015. Nodwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015 fydd o ganlyniad yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion. Amlygwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o fesurau ac yn cynnwys mesurau sy'n effeithio ar 'alcohol, chwaraeon ac adloniant' ac yn benodol Deddf Trwyddedu 2003. Nodwyd y byddai'r newidiadau yn cael eu cyflwyno yn raddol:

Tynnwyd sylw at y prif fesurau fydd yn effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 -

- A68 - Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau'r flwyddyn (dod i rym 26.5.15)
- A69 - Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu (dod i rym 1.4.15)
- A70 - Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd (dod i rym 26.5.15)
- A72 - Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu (dod i rym 26.5.15)
- A76 - Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol (dod i rym 6.4.15)

Er hynny, nid oes gorchymyn cychwyn yn manylu pa ddyddiadau y byddai'r darpariaethau isod yn dod i rym. Ategwyd y byddai'r newidiadau isod yn debygol o gael effaith ar lwyth gwaith yr Uned Trwyddedu.

- A67 Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
- A71 – Lluniaeth hwyr y nos

Mewn ymateb i sylw, yng nghyd-destun Gwerthu alcohol (A67), nodwyd bod angen i drefnydd unrhyw ddigwyddiad dystiolaethu'r angen mewn cais i werthu alcohol mewn digwyddiad cymunedol. Bydd rhybudd Rhan 5A yn parhau am dair blynedd ac yn rhybudd ar yr eiddo yn unig. Bydd cost y rhybudd yn cael ei benderfynu yn genedlaethol. Diben y newid yma yw creu awdurdodaeth ysgafnach i leihau baich ar ein cymunedau. Yn ychwanegol, nodwyd nad oedd fformat y rhybudd wedi ei gyflwyno hyd yma ynghyd â'r elfen gorfodaeth.

Y bwriad yw symleiddio prosesau o greu digwyddiadau cymunedol ac nid i geisio busnes oddi ar fusnesau lleol eraill. Croesawyd yr egwyddor, ond amlygwyd nad oedd digon o wybodaeth wedi dod i law. Amlygwyd pryder am yr elfen llwyth gwaith ychwanegol a phrinder adnoddau yr Uned Trwyddedu fydd yn codi o ganlyniad i'r newidiadau.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Pennaeth Rheoleiddio**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m a daeth i ben am 10:55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 16.07.15

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen, Cyng. Ann Williams, Cyng. Dilwyn Lloyd

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen . Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – PANT YR ARDD, TREGARTH, BANGOR**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Kenneth Richard Williams (yr ymgeisydd) a Mr Robert Williams

**Aelod Lleol:** Cyng. Gwen Griffith

**Eraill a fynychwyd:** Mr Huw Jones (Cyngor Cymuned Llandygai), Mr P a Mrs H Jones (trigolion cyfagos)

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais Mr Kenneth Richard Williams am drwydded eiddo ar gyfer Pant yr Ardd, Tregarth, Bangor. Er mai cais ydoedd ar gyfer tŷ tafarn gyda gardd gwrw, tynnwyd sylw nad oedd cynllun yr eiddo a dderbyniwyd gyda'r ffurflen gais yn cynnwys lleoliad yr ardd gwrw. O ran gwybodaeth gefndirol, nodwyd bod trwydded eiddo wedi bodoli ar gyfer yr eiddo ers 24.11.2005 ond cafodd ei ildio 20.05.15. Cyfeiriwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'i gais ac yn dilyn trafodaethau gyda Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Trwyddedu wedi cytuno i'r amodau sŵn ac i amodau teledu cylch cyfyng

b) Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd bod gwrthwynebiad i'r cais gan Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd ac yr Awdurdod Trwyddedu. Nid oedd sylwadau wedi ei derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru ac nid oedd gwrthwynebiad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn ychwanegol, derbyniwyd pum gwrthwynebiad gan bartïon eraill yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Trosedd ac Anrhefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus. Prif bryderon y gwrthwynebwyr oedd cynnydd mewn sŵn, anrhefn, sbwriel a gweithgareddau trwyddedadwy fydd yn cael eu cynnig yn yr ardd gwrw.

c) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau

- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i rannu eu sylwadau. Nodwyd hefyd bod yr Aelodau wedi cynnal ymweliad safle.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno a'i fod eisoes wedi cytuno gyda'r amodau sŵn a theledu cylch cyfyng ac wedi gostwng rhai oriau agor. Mynegodd na fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae tu allan i'r eiddo, yn y maes parcio/gardd gwrw, a phe bai eisiau cynnal digwyddiad trwyddedadwy yn y maes parcio/gardd gwrw yn y dyfodol, roedd yn ymwybodol o'r angen i wneud cais am drwydded ychwanegol. Roedd yr ymgeisydd yn barod i gydweithio gyda gofynion y gymuned drwy ystyried gostyngiad yn yr oriau a chau drysau a ffenestri i geisio atal sŵn.

d) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Mr Brazier

dd) Mewn ymateb i'r cais nododd yr Aelod Lleol - y Cynghorydd Gwen Griffith, ei bod yn croesawu tafarn yn y pentref gan mai'r dafarn ar Ganolfan Gymunedol oedd yr unig adeilad cyhoeddus yn y pentref. Er hynny, amlygodd bod Tregarth yn bentref distaw a bod angen sicrhau tegwch i breswylwyr cyfagos. Amlygodd hefyd ei phryderon o ran diogelwch bod ffordd brysur yn rhedeg rhwng y dafarn a'r ardd gwrw / maes chwarae / maes parcio ac nad oedd rheolaeth dros leoliadau ysmygu. Yn dilyn cwynion am sŵn o'r dafarn dros y blynyddoedd diwethaf mynegodd ei bod yn croesawu'r ffaith bod yr oriau yn cael eu lleihau ac na fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae tu allan i'r eiddo. Gofynnodd am sicrwydd y byddai'r safle yn cael ei gadw'n lân a thaclus.

e) Mewn ymateb i'r cais nododd Mr Huw Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandygai farn y Cyngor ar y cais a gafodd ei drafod yn eu cyfarfod mis Mehefin 2015. Nodwyd bod y Cyngor yn derbyn pwysigrwydd y dafarn i'r gymuned leol ond amlygwyd pryder i'r oriau agor ac i'r niwsans cyhoeddus fydd i drigolion lleol o gynnal digwyddiadau yn y maes parcio/gardd gwrw. O ran sŵn sydd yn codi o bobl yn siarad ag ysmygu tu allan i'r eiddo derbyniwyd bod hyn, mae'n debyg yn sylw cyffredinol ers y gwaharddiadau ysmygu. Cydnabuwyd yr angen i sicrhau balans o fewn y gymdeithas - nodwyd bod y pentref yn gefnogol i'r dafarn ond bod rhaid rhoi ystyriaeth deg i anghenion a gofynion trigolion lleol ac i'r gymdeithas sydd yn defnyddio'r dafarn. Nodwyd nad oedd cwynion ffurfiol wedi eu derbyn gan y Cyngor, ond roedd yn ymwybodol o bryderon trigolion lleol drwy sgyrsiau anffurfiol. Amlygodd bod y Cyngor yn gefnogol i'r cais petai'r amodau yn cael eu derbyn gan yr ymgeisydd.

f) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Mr Roberts

ff) Mewn ymateb i'r cais nododd Mr a Mrs Jones, trigolion cyfagos eu gwrthwynebiad i'r cais oherwydd newidiadau i'r oriau agor, y bwriad i chwarae cerddoriaeth fyw tu allan i'r eiddo a'r bwriad i werthu alcohol oddi ar yr eiddo. Amlygodd Mrs Jones ei bod , fel teulu, wedi cael profiadau drwg yn y gorffennol gyda chyn landlord ac roeddynt yn poeni y buasai rhaid iddynt wynebu'r un pryderon/trafferthion eto. Mynegodd Mrs Jones, bod hi a'i gwr yn ymwybodol bod yr eiddo yn bodoli fel tafarn cyn iddynt brynu eu cartref ac felly roedd disgwyliad amlwg i ychydig o sŵn a cherddoriaeth. Er hynny, roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn uchel tu allan i'r oriau trwyddedu ac fe alwyd am asesiad sŵn. Gwnaed cais i'r ymgeisydd gydymffurfio â gofynion y gymuned gan geisio diwallu gofynion sŵn, rheoli'r hyn sydd yn digwydd yn y maes parcio a pharchu'r amgylchedd drwy glirio ar ôl digwyddiadau cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn nododd Mrs Jones eu bod wedi cysylltu gyda'r Heddlu unwaith ynghylch sŵn o gar yn y maes parcio.

g) Wrth grynhoi ei gais nododd yr ymgeisydd ei fod yn ddiolchgar i'r gwrthwynebwyr am ddod ymlaen gyda'u sylwadau ac y bydd yn gwneud pob ymgais i gydymffurfio â'r gofynion

h) Cadarnhawyd yr oriau diwygiedig a'r newidiadau i'r cais.

i) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Ar sail y sylwadau ysgrifenedig a llafar, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais fel y'i diwygiwyd, a'r drwydded a roddwyd, yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Dymunwyd y gorau i'r ymgeisydd a'r redeg yr eiddo fel tafarn gan gydweithio yn effeithiol gyda'r gymuned a thrigolion cyfagos.

**Penderfynodd yr Is-bwyllgor roi'r drwydded yn unol â'r cais fel y'i diwygiwyd yn ystod y gwrandawiad. Yn yr amgylchiadau, mae'r drwydded a roddir fel a ganlyn**:

**i. Oriau agor: yn unol â'ch ffurflen gais gwreiddiol.**
**ii. Digwyddiadau chwaraeon dan do: yn unol â'ch ffurflen gais gwreiddiol.**
**iii. Cerddoriaeth fyw: dan do, Gwener 18:00-00:00, Sadwrn 18:00-01:00, Sul 12:00-00:00.**
**iv. Cerddoriaeth wedi recordio: dan do, Llun-Iau 12:00-23:00, Gwener-Sul 12:00-00:00.**
**v. Adloniant arall: dan do, Llun-Gwener 12:00 - 00:00, Sadwrn 12:00 - 01:00, Sul 12:00 - 00:00.**
**vi. Cyflenwi alcohol: i yfed ar ac oddi ar yr eiddo, Llun-Gwener 12:00-01:00, Sadwrn 11:00-01:00, Sul 11:00-00:00.**
**vii. Ymgorfforir rhan M o'ch ffurflen gais (atodlen weithredu) fel amodau i'r drwydded.**
**viii. Ymgorfforir fel amodau i'r drwydded yr amodau a argymhellwyd gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â rheoli sŵn, golau a chamerâu teledu cylch cyfyng.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**4. Cais Amrywio Trwydded 'The Royal', Bermo.**

**a)** Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu bod swyddogion wedi cynnal cyfarfod rhwng y partïon perthnasol a bod cytundeb wedi ei wneud i ganiatáu y cais. O ganlyniad, roedd y drafodaeth yn osgoi'r angen i gynnal gwrandawiad. Nododd y cyfreithiwr os bydd cais yn cael ei drafod drwy gymodi (mediation) nad oedd angen dyfarniad pellach gan Is Bwyllgor.

**Penderfynwyd i'r dyfodol, gyflwyno cofnod o drafodaethau / cyfarfodydd cymodi (mediation), fel gwybodaeth i'r Pwyllgorau Trwyddedu perthnasol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30pm a daeth i ben am 3:50pm